| | |
|---|---|
| **Enw:** | *Aliya Iftikhar, Swyddog Polisi* |
| **Sefydliad:** | *Cymorth i Ferched Cymru* |
| **Cyfeiriad ebost:** | *Aliyaiftikhar@welshwomensaid.org.uk* |
| **Rhif ffôn:** | *02920 541 551* |
| **Cyfeiriad:** | *Tŷ Pendragon, Caxton Place, Pentwyn, Caerdydd CF23 8XE* |
| **Dyma farn:** | *Cymorth i Ferched Cymru (Trydydd Sector) – yr elusen genedlaethol yng Nghymru sy'n gweithio i ddileu cam-drin domestig a phob math o drais yn erbyn menywod.* |



**Cymorth i Ferched Cymru:**

Cymorth i Ferched Cymru yw'r corff ymbarél yng Nghymru sy'n cefnogi ac yn darparu cynrychiolaeth genedlaethol i wasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) arbenigol annibynnol yn y trydydd sector yng Nghymru. Mae ein haelodau'n cynnwys 20 o wasanaethau cymorth annibynnol. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu cymorth a gwaith ataliol sy'n achub ac yn newid bywydau mewn ymateb i drais yn erbyn menywod, gan gynnwys cam-drin domestig a thrais rhywiol yn erbyn plant a phobl ifanc, dynion a bechgyn, pobl draws ac anneuaidd, fel rhan o rwydwaith o ddarpariaeth yn y DU. Fel corff ymbarél, ein prif nod yw atal cam-drin domestig, trais rhywiol a phob math arall o drais yn erbyn menywod a sicrhau gwasanaethau ansawdd uchel i oroeswyr sy'n cael eu harwain gan anghenion, yn ymateb i rywedd ac yn gyfannol. Rydym ni'n cydweithio'n genedlaethol i integreiddio a gwella ymatebion cymunedol ac ymarfer yng Nghymru. Rydym ni hefyd yn dyfarnu Safonau Ansawdd Gwasanaeth Cenedlaethol Cymru (NQSS), fframwaith achredu cenedlaethol i wasanaethau cam-drin domestig arbenigol yng Nghymru (gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru) fel rhan o gyfres o systemau a fframweithiau achredu integredig yn y DU. Ceir rhagor o wybodaeth am NQSS yma).

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn credu'n sylfaenol y bydd y Bil Mudo Anghyfreithlon yn effeithio'n sylweddol ar fenywod a phlant sy'n ffoi i'r DU oherwydd y risg o niwed difrifol a/neu erledigaeth yn eu gwlad gartref ac yn gwaethygu trawma goroeswyr mudol VAWDASV.

Daeth Confensiwn Istanbul i rym ar 1 Tachwedd 2022; 10 mlynedd ar ôl cael ei lofnodi. Roedd Cymorth i Ferched Cymru yn siomedig bod Llywodraeth y DU wedi dewis cadarnhau gydag amodau, gan gynnwys Erthygl 59[1]; oedd yn ymwneud â chymorth i fenywod a merched mudol sy'n profi trais

[1] Confensiwn Cyngor Ewrop ar atal a brwydro trais yn erbyn menywod a cham-drin domestig, Erthygl 59



Cymorth i Ferched Cymru is a registered charity in England and Wales, No. 1140962
and a company limited by guarantee registered in England and Wales, No. 07483469

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

ar sail rhywedd. Mae'r dewis hwn, ochr yn ochr â'r Bil, yn dangos diffyg tosturi llwyr at fenywod a phlant mudol, a bydd yn achosi niwed sylweddol i'r mudwyr hynny sy'n oroeswyr VAWDASV. Mae'r patrwm dychrynllyd hwn mewn dewisiadau deddfu i fynd ati'n fwriadol i eithrio'r menywod a'r merched mwyaf bregus yn ein cymdeithas, yn creu system dwy haen o fynediad a chymorth. Bydd cyflwyno'r Bil hwn yn tanseilio ymrwymiad datganedig Llywodraeth y DU i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched.

**Cyflwyniad cyffredinol y Bil**

Mae Confensiwn Ffoaduriaid y CU 1951 yn amlinellu telerau ffoaduriaid, eu hawliau ac ymrwymiad cyfreithiol Gwladwriaethau i'w gwarchod. Un o'r egwyddorion craidd yw '*non-refoulment*', sef na ddylai ffoaduriaid orfod dychwelyd i wlad lle mae bygythiad difrifol i'w bywydau neu eu rhyddid. Mae Erthygl 3[2] yn gwahardd unrhyw wahaniaethu yn erbyn ffoaduriaid ar sail eu hil, crefydd neu'r wlad maent yn hanu ohoni. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw lwybrau diogel a chyfreithlon i ffoaduriaid ddod i mewn i'r DU, fel yr amlygwyd gan Stella Creasy AS yn ystod y Cam Pwyllgor[3], a bydd y sefyllfa hon yn parhau os caiff y Bil hwn ei ddeddfu. Rhaid ceisio lloches oddi fewn i'r DU; fodd bynnag mae llawer o bobl sy'n ffoi rhag rhyfel ac erledigaeth yn methu â chael gafael ar y pasborts neu'r fisas angenrheidiol. Fel yr amlygwyd gan Uchel Gomisiynydd y Cenhedloedd Unedig dros Ffoaduriaid, mae'r Confensiwn yn cydnabod yn benodol y gellid gorfodi ffoaduriaid i fynd i mewn i wlad mewn modd afreolaidd[4]. Pe bai'r Bil yn cael ei roi ar waith, byddai mudwyr yn cael eu cosbi am ddod i mewn i'r DU ar lwybrau afreolaidd, er nad oes unrhyw lwybrau cyfreithiol hygyrch ar gael, gan greu sefyllfa amhosibl i bobl mewn angen. Ni fydd y Bil yn lleihau'r nifer o fudwyr sy'n mentro ar hyd llwybrau afreolaidd ond *bydd* yn anochel yn achosi cynnydd mewn cam-fanteisio ar fenywod a phlant mewn masnachu anghyfreithlon cudd a chyfundrefnol. Yna mae'n debygol y byddai'r menywod a'r plant hyn yn cael eu dychwelyd i'w gwlad wreiddiol lle byddant wedi dioddef niwed a/neu drais sylweddol. Byddai'r broses hon yn gwrth-ddweud rhwymedigaethau'r DU dan y Confensiwn a byddai'n gwrthod amddiffynfa i geiswyr lloches a ffoaduriaid[5]. Bydd cyflwyno Cymal 1(5) yn golygu na fydd Erthyglau niferus dan Gonfensiwn Ewrop ar Hawliau Dynol, a weithredir dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 yn cael eu cyflawni. Ni fydd modd i geisiadau menywod a phlant mudol gael eu clywed os ydynt yn ddigamsyniol yn ffoi rhag niwed a thrais. Mae hyn yn diddymu eu hawl i fywyd, rhyddid, sicrwydd yr

[2] Y Confensiwn yn ymwneud â Statws Ffoaduriaid 1951, Erthygl 3

[3] https://hansard.parliament.uk/commons/2023-03-28/debates/6F481923-B613-4807-BD4B-B1ED72AC3A75/IllegalMigrationBill, colofn 921.

[4] Y Confensiwn yn ymwneud â Statws Ffoaduriaid 1951, Erthygl 31 (1)

[5] https://www.migranthelpuk.org/news/statement-on-the-governments-announcement-of-the-illegal-migration-bill



Cymorth i Ferched Cymru is a registered charity in England and Wales, No. 1140962
and a company limited by guarantee registered in England and Wales, No. 07483469

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

unigolyn ac i wrandawiad teg[6]. Mae difaterwch clir ynghylch cynnal a chefnogi hawliau dynol goroeswyr mudol.

**Dyletswydd i wneud trefniadau ar gyfer symud**

Cred Cymorth i Ferched Cymru yn gryf fod y Bil hwn yn dangos diffyg dealltwriaeth neu werthfawrogiad sylweddol o'r amgylchiadau enbyd y mae llawer o fenywod a phlant yn cael eu gorfodi i ffoi rhagddynt, a'r diffyg dewis o lwybr at ddiogelwch sydd ar gael iddynt. Ni fyddai menywod a phlant yn croesi dyfroedd mewn cwch bach, oni bai bod y risg o niwed difrifol a marwolaeth yn llai difrifol a brawychus na'r hyn roeddent yn ffoi rhagddo. Amcangyfrifir bod 48% o'r bobl a gaiff eu dadleoli ar draws ffiniau yn fenywod a merched[7] ac mae hyd at 70% o fudwyr benywaidd wedi profi trais rhywiol neu ar sail rhywedd[8]. Nid yw breguster a thrawma menywod a phlant a ddadleolwyd wedi'i ystyried yn dilyn cyflwyno'r Bil, a bydd yr amryfusedd hwn yn arwain at drawma pellach gan y sefydliadau sydd â dyletswydd sylfaenol i warchod. Mae symud mudwyr sydd wedi cyrraedd yn afreolaidd, fel y nodir uchod, yn diystyrru Erthygl 31 Confensiwn 1951. Mae'n amlygu'n benodol na ddylai'r wladwriaeth osod cosbau ar ffoaduriaid oherwydd iddynt gael mynediad neu bresenoldeb anghyfreithlon. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw lwybrau cyfreithlon yn y DU ac felly mae mudwyr yn gorfod teithio ar draws cyfandiroedd – mae symud mudwyr sy'n cyrraedd ar lwybrau afreolaidd yn cyfateb i waharddiad llwyr ar loches[9]. Tynnodd Cyngor y Ffoaduriaid sylw ym mis Mawrth 2023 at y ffaith na chofnodwyd i unrhyw ddinasyddion Wcrain gyrraedd drwy groesi'r sianel (ar gychod) gan fod dros 200,000 fisa wedi'u darparu i'r rheini a ddadleolwyd gan y rhyfel[10]. Nid yw'n glir pam nad yw hyn yn drefniant safonol i'r holl fudwyr a ddadleolir gan ryfel beth bynnag yw eu lleoliad yn y byd a chredwn fod rhaid gwneud yr un ymrwymiad i'r holl fudwyr, fel yr amlygwyd gan Olivia Blake AS yn y Cam Pwyllgor[11]. Credwn mai dyma sut mae'n rhaid i bethau fod sut bynnag mae unigolion yn dod i mewn i'r wlad, pan fydd unigolion yn ffoi rhag erledigaeth, gwrthdaro, trais a thramgwydd i'w hawliau dynol. Canfu dadansoddiad o ddata diweddar a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref y byddai'r mwyafrif llethol o'r rheini oedd yn cyrraedd mewn cychod bach yn cael eu derbyn fel ffoaduriaid, pe bai eu cais yn cael ei glywed[12]. Mae gwaredu'r ceisiadau gwarchodol, yr ceisiadau hawliau dynol a chanolbwyntio ar y dull maent yn cyrraedd, yn diddymu'r ffaith sylfaenol fod gan

---

[6] https://rm.coe.int/commhr-2023-8-letter-to-united-kingdom-speaker-of-the-houses-of-parlia/1680aaad61
[7] https://www.unhcr.org/62a9d1494/global-trends-report-2021
[8] https://jantrust.org/blog/migrant-women-in-the-uk-are-at-risk-of-becoming-victims-of-modern-slavery/
[9] https://www.unhcr.org/uk/news/press/2023/3/6407794e4/statement-on-uk-asylum-bill.html
[1010] https://www.refugeecouncil.org.uk/wp-content/uploads/2023/01/Refugee-Council-Channel-Crossings-briefing-March-2023.pdf
[11] https://hansard.parliament.uk/commons/2023-03-27/debates/5D4369C7-D5F5-42D5-B8DF-462BC5DDA601/IllegalMigrationBill, column 753.
[12] https://www.refugeecouncil.org.uk/latest/news/majority-of-people-on-small-boats-crossing-channel-last-year-are-refugees-new-analysis-shows/

fudwyr yr hawl i geisio a mwynhau lloches rhag erledigaeth yn ddiamod. Mae hefyd yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol barhau i fod â dyletswydd i symud unigolyn, hyd yn oed os yw'n bosibl fod achos cyfreithiol dilys ar waith, a fyddai'n atal eu symudiad[13]. Mae hyn yn gwrthod gwarchodaeth i'r mudwyr dan sylw ac yn tanseilio trefn y gyfraith[14]. Bwriedir i'r Bil fod yn ôl-weithredol; byddai'r ddyletswydd yn gymwys ar neu ar ôl 7 Mawrth 2023. Bydd y natur ôl-weithredol hon yn gwahaniaethu yn erbyn mudwyr a weithredodd heb unrhyw wybodaeth am y gyfraith hon a'i chanlyniadau iddyn nhw, gan gyfyngu ymhellach ar eu eu rhyddid, eu mynediad at ymreolaeth a'u dewisiadau. Credwn yn bendant fod gan bawb yr hawl i fyw eu bywyd heb ofn a gyda'r gallu i hawlio lloches i gyflawni hyn.

**<u>Dalfa a mechnïaeth</u>**

Ym mis Mawrth 2023, tynnodd Cyngor y Ffoaduriaid sylw at y ffaith fod yn agos i hanner y rheini a groesodd y sianel yn dod o 5 gwlad, Afghanistan, Iran, Syria, Eritrea a Sudan. Mae gan bob un o'r gwledydd hyn gyfraddau caniatáu lloches cyfredol dros 80%, gyda thair gwlad â chyfraddau o 98%[15]. Mae hyn unwaith eto'n cadarnhau y byddai nifer uchel sylweddol o'r rheini sy'n defnyddio llwybrau afreolaidd i gyrraedd y DU yn derbyn lloches pe bai eu cais yn cael ei ganiatáu. Mae dalfa dan y Bil ar gyfer mudwyr sydd wedi dilyn llwybrau afreolaidd i gyrraedd y DU unwaith eto'n torri Erthygl 31 y Confensiwn[16]. Rhaid i wladwriaethau beidio â gosod cosbau ar sail mynediad anghyfreithlon[17]. Heb weithredu'r Bil, mae ôl-groniad o geisiadau lloches yn bodoli eisoes ac mae mudwyr yn dal i gael eu dal am gyfnodau sylweddol. Dylai lleihau amseroedd prosesu ceisiadau'n sylweddol fod yn un o brif flaenoriaethau Llywodraeth y DU, ond nid yw hyn yn cael sylw yn y Bil. Mae menywod a merched sydd wedi ffoi i'r DU, gan ddianc rhag trais a risg o niwed difrifol, yn cael eu dal mewn amgylchiadau sy'n fygythiad clir i'w llesiant a hyd yn oed eu bywydau. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw reolaeth ar yr amser a dreulir yn y sefydliadau hyn ac fel yr amlygwyd gan Refugee Action mae hyn yn tramgwyddo hawl unigolion i ryddid - hawl dynol sylfaenol[18]. Byddai'r Bil yn caniatáu i'r Gweinidog Gwladol yn hytrach na'r llysoedd bennu'r hyn sy'n gyfnod rhesymol o ddalfa. Gallai hyn ganiatáu sefyllfaoedd lle mae menywod a phlant yn cael eu dal am gyfnod sylweddol o amser, oni bai eu bod yn gallu sicrhau mechnïaeth - a rhaid aros 28 diwrnod yn y ddalfa cyn gwneud cais am hynny. Fel y nododd Alison Thewliss AS ar y Cam Pwyllgor, mae hyn yn golygu y bydd miloedd yn fwy o fudwyr yn cael eu

---

[1313] https://publiclawproject.org.uk/content/uploads/2023/03/Illegal-Migration-Bill-briefing.pdf, paragraff 20.
[14] ibid.
[15] https://www.refugeecouncil.org.uk/wp-content/uploads/2023/01/Refugee-Council-Channel-Crossings-briefing-March-2023.pdf
[16] Y Confensiwn yn ymwneud â Statws Ffoaduriaid 1951, Erthygl 31 (1)
[17] Ibid.
[18] https://www.refugee-action.org.uk/wp-content/uploads/2023/03/Hostile-Accommodation-Refugee-Action-report.pdf

caethiwo yn y system am gyfnod penagored[19]. Ni roddir ystyriaeth i natur fregus mudwyr sy'n fenywod ac yn blant, a cheir diffyg dealltwriaeth o'r ail-drawmateiddio a all ddigwydd pan fydd goroeswyr VAWDASV yn cael eu dal mewn amgylchedd o'r fath, ac anwybyddir y ffaith y dylent allu cyrchu gwasanaethau hanfodol ar unwaith wrth gyrraedd y DU, waeth beth yw eu dull mynediad. Nid yw'r risg o niwed a thrais difrifol yn diflannu pan fydd menywod a phlant yn cyrraedd y DU. Yn y canolfannau cadw, canfuwyd lefelau sylweddol o drais ar sail rhywedd[20]. Fel y nododd Comisiynydd Hawliau Dynol Ewrop[21], credwn yn gryf fod dal mudwyr sy'n fenywod ac yn blant mewn gwersylloedd cadw, gan wrthod caniatáu eu ceisiadau, yn annynol ac yn torri ymrwymiadau hawliau dynol a chyfraith ryngwladol y DU.

**<u>Caethwasiaeth fodern, y fasnach mewn pobl, a phlant</u>**

Gallai'r Bil Mudo Anghyfreithlon newid ffocws i droseddoli'r gangiau sy'n 'berchen ar' neu'n 'hwyluso' y llwybrau afreolaidd. Ym mis Rhagfyr 2020, daeth Llywodraeth y DU â'r unig lwybr diogel gweithredol i bobl sy'n ceisio lloches i ben[22]. Mae'r cyfiawnhad ar gyfer datgymhwyso llawer o ddarpariaethau caethwasiaeth fodern ar y sail bod unigolyn yn "fygythiad i'r drefn gyhoeddus" gan eu bod wedi cyrraedd yn afreolaidd yn rhagfarnus, ac yn seiliedig ar weithredu blaenorol gan Lywodraeth y DU i ddileu llwybrau diogel a chyfreithiol. Mae'r Sefydliad Mudo Rhyngwladol wedi pwysleisio bod caethwasiaeth fodern yn effeithio'n anghymesur ar fenywod a merched gan gyfrif am 71% o'r cyfanswm, a 99% o ddioddefwyr llafur gorfodol yn y diwydiant rhyw masnachol[23]. Nid yw risg caethwasiaeth fodern a'r fasnach mewn pobl yn dod i ben ar ôl i fenyw neu ferch ddod i mewn i'r DU. Mae dioddefwyr camfanteisio rhywiol ar oedolion neu blant yn parhau'n agored i gam-fanteisio pellach. Nid yw bwriad y Bil i symud dioddefwyr posibl caethwasiaeth neu'r fasnach mewn pobl yn gydnaws â'r rhwymedigaeth ryngwladol sydd ar y DU o ran hawliau dynol neu'r fasnach mewn pobl. Dan Gonfensiwn Cyngor Ewrop ar Weithredu yn erbyn Masnachu mewn Bodau Dynol, rhaid i wladwriaethau warchod hawliau dioddefwyr masnachu, hyrwyddo dull gweithredu'n seiliedig ar hawliau dynol ac un sy'n sensitif i blant[24]. Yn ei Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mae'r Gweinidog Cyfiawnder Jane Hutt AS wedi pwysleisio mai safbwynt Llywodraeth Cymru yw 'plentyn yn

---

[19] https://hansard.parliament.uk/commons/2023-03-28/debates/6F481923-B613-4807-BD4B-B1ED72AC3A75/IllegalMigrationBill, column 883
[20] https://www.birmingham.ac.uk/documents/college-social-sciences/social-policy/iris/2022/sereda-wales-report.pdf
[21] https://rm.coe.int/commhr-2023-8-letter-to-united-kingdom-speaker-of-the-houses-of-parlia/1680aaad61
[22] Rheoliadau Dulyn (EU 604/2013)
[23] https://publications.iom.int/system/files/pdf/migrants_and_their_vulnerability.pdf.
[24] Confensiwn Cyngor Ewrop ar Weithredu yn erbyn Masnachu mewn Bodau Dynol, Pennod I Erthygl 1(b) a Pehnnod II Erthygl 5(3).



Cymorth i Ferched Cymru is a registered charity in England and Wales, No. 1140962
and a company limited by guarantee registered in England and Wales, No. 07483469

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

gyntaf, mudwr yn ail' ac nad yw'r Bil yn cydnabod cyd-destun datganoledig Cymru; felly ni all argymell bod y Senedd yn cydsynio i'r darpariaethau hyn[25].

Gyda chreu'r Bil hwn a dileu darpariaethau cymorth i'r rheini sy'n cyrraedd yn afreolaidd, mae Llywodraeth y DU wedi anwybyddu'n sylweddol y ddyletswydd arnynt i ddarparu cymorth i ddarpar ddioddefwyr caethwasiaeth neu'r fasnach mewn pobl. Mae'r ymgyrch i atal y cychod bach yn anwybyddu'r angen i warchod mudwyr rhag dioddef camfanteisio wrth law gangiau troseddol gan ganolbwyntio yn lle ar eu dull o gyrraedd. Credwn yn gryf fod angen i Lywodraeth y DU ganolbwyntio ar y rheswm pam fod mudwyr yn gorfod dibynnu ar lwybrau afreolaidd peryglus ac ar y rheini sy'n hwyluso hyn; rhaid cael ymrwymiad i sicrhau bod llwybrau diogel ar gael i'r holl fudwyr gyda chymorth wedi'i lywio gan drawma ar gael i bawb. Nid yw troseddau masnachu pobl a chaethwasiaeth fodern yn digwydd mewn seilo, mae ffactorau fel gwladwriaeth sy'n gwahaniaethu ac yn anwybyddu hawliau dynol yn hwyluso gangiau i fanteisio ar bobl agored i niwed mewn sefyllfaoedd enbyd. Mae'r Bil yn dangos blaenoriaeth gorfodi mewnfudo a diffyg dealltwriaeth llwyr o'r trawma y mae menywod a phlant sy'n fudwyr yn ei brofi cyn, yn ystod ac ar ôl ailgyfhaneddu.

**Casgliad**

Credwn fod cyflwyno'r Bil hwn yn gosod menywod a phlant sy'n fudwyr mewn perygl o niwed sylweddol pellach ac y bydd yn peri trawma pellach i oroeswyr VAWDASV. Mae Llywodraeth y DU wedi mynegi ar lafar eu hymrwymiad i drais yn erbyn menywod a merched, fodd bynnag mae'r Bil yn tanseilio'r ymrwymiad hwnnw'n sylweddol. Mae'r Bil yn tramgwyddo ymrwymiadau i hawliau dynol domestig y DU a rhyngwladol, y fasnach mewn pobl a hawliau plant. Rydym yn galw ar Lywodraeth y DU i ailfeddwl y Bil a chanolbwyntio ar hawliau a mesurau diogelu i ddioddefwyr sy'n fenywod a phlant ac yn fudwyr, a sefydlu a chynnal llwybrau diogel a chyfreithiol. Rhaid i bawb, beth bynnag eu statws mewnfudo, allu byw bywyd yn rhydd rhag ofn yn y DU.

[25] https://senedd.wales/media/y1pndlk0/lcm-ld15778-e.pdf.

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE
Tel: 02920 541551
info@welshwomensaid.org.uk | www.welshwomensaid.org.uk

Cymorth i Ferched Cymru is a registered charity in England and Wales, No. 1140962
and a company limited by guarantee registered in England and Wales, No. 07483469

Llywodraeth Cymru
Welsh Government